IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 16 MEDI 2016

Yn bresennol: Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd)

Cynghorwyr Kelloway a/ac Murphy

7 : DATGAN BUDDIANNAU

8 : CAIS I NEWID TRWYDDED SAFLE - LIBERTINE COCKTAIL BAR, HEOL EGLWYS FAIR

Ymgeiswyr: Hugh Jones a Sam Taylor, Cyfarwyddwyr
Paul Trew, Acoustic and Noise Ltd,

Awdurdod Cyfrifol: Sian James a Gillian Jones, Pollution Control

<u>Y Cais</u>

Daeth cais i law i amrywio Trwydded Safle gan H&S Number 3 Limited mewn perthynas â Bar Coctels Libertini (Barbucci gynt), 28 Heol Fawr, Caerdydd.

Cyflwynwyd y cais i amrywio canlynol:

1. Estyn yr oriau y caniateir i alcohol gael ei werthu i'w yfed ar y safle:

   Dydd Sul i ddydd Iau: 10:00 tan 00:30
   Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 01:30

2. Ychwanegu adloniant a reoleiddir ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do):

   Dydd Sul i ddydd Iau: 10:00 tan 01:00
   Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 02:00

3. Ymestyn oriau agor y safle:

   Dydd Sul i ddydd Iau: 10:00 tan 01:00
   Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 02:00

4. Diddymu'r amodau canlynol:
   i) Caiff prydau bwrdd eu cynnig ar bob adeg y mae'r safle yn agored i'r cyhoedd.
   ii) Bydd byrddau a chadeiriau wedi'u gosod ar o leiaf 80% o'r ardal drwyddedadwy ar gyfer bwyta prydau.

Ar ddechrau'r gwrandawiad, rhoddodd swyddogion wybod i'r Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd wedi derbyn y nifer o amodau a argymhellwyd yn sylwadau Heddlu De Cymru.

<u>Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol</u>

Anerchodd Gillian Jones yr Is-bwyllgor. Rhoddwyd gwybod i aelodau bod sefydliad Rheoli Llygredd yn gwrthwynebu'r cais gan nodi'r rheswm atal niwsans i'r cyhoedd. Dywedodd Gillian Jones fod preswylfeydd uwchben y safle ac ar ei ddwy ochr, a'i bod yn debygol y byddai preswylwyr y safleoedd hynny'n dioddef o niwsans sŵn o ganlyniad i'r adloniant a reoleiddir a'r oriau estynedig yn y cais.

Mynegodd Gillian Jones ei bod yn siomedig na roddwyd rhagor o ystyriaeth i barth effaith gronnus y Cyngor. Dywedodd Mr Hugh Jones nad oedd yn credu bod unrhyw ddiffyg ymgynghori â'r awdurdodau cywir ar leoliad y safle yn y parth effaith gronnol. Bu'r ymgeisydd yn ceisio trafod â Heddlu De Cymru o'r dechrau.

Cadarnhaodd swyddogion na fu unrhyw gwynion gan breswylwyr am y bar newydd nac am y bwyty cynt. Er hynny, bu cwynion gan safleoedd tebyg yn y cyffiniau. Wrth wraidd y gwrthwynebiadau oedd yr oriau estynedig a'r newid o fod yn fwyty i fod yn far yn bennaf. Mae bar yn y cyffiniau wedi creu problemau difrifol i breswylwyr ac o ganlyniad i hynny cymerwyd camau gorfodi a chynhaliwyd adolygiad o drwydded y safle. Pwysleisiodd swyddogion, yn eu barn, y byddai niwsans i'r cyhoedd yn debygol pe cymeradwywyd y cais.

Gan ymateb i gwestiwn gan yr ymgeisydd, rhoddodd swyddogion wybod bod oriau agor safleoedd trwyddedadwy yn y cyffiniau yn gyffredinol yn hwyrach. Serch hynny, gallai'r safleoedd hynny fod ar agor tan 02:00 ar y penwythnos ac roedd yn ofynnol i sefydliad Rheoli Llygredd ystyried effaith y bar ar breswylwyr. Cadarnhaodd swyddog nad oedd wedi trafod y cais ag unrhyw breswylwyr.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Cyflwynodd Mr Hugh Thomas y cais. Cafodd aelodau wybod bod yr ymgeisydd yn cynnal safleoedd tebyg yn Amwythig ac Aberystwyth. Mae'r ddau o'r safleoedd hynny yng nghanol preswylfeydd. Mae'r busnes ym meddiant preifat ac mae'r cyfarwyddwyr yn effro i'r effaith y mae eu gwaith yn cael ar eu cymdogion. Nid oes cwynion am y safleoedd eraill.

Dywedodd Mr Thomas y byddai'r safle yn cynnig rhywbeth gwahanol i'r barrau eraill yng nghanol y ddinas oherwydd nad oeddent yn 'gam' tuag at glybiau nos. Mae'r model busnes yn masnachu'n agos at glystyrau o fwytai sefydledig yn y cyffiniau a'r nod yw denu cwsmeriaid y bwytai hynny. Nid oedd yr ymgeiswyr am ymestyn eu horiau masnach y tu hwnt i'r hyn a oedd yn addas i'w cwsmeriaid.

Anerchodd Paul Trew, ymgynghorydd acwstig, yr Is-bwyllgor. Dywedodd Mr Trew ei fod yn arbenigo ym maes acwstig a bod ganddo brofiad o weithio yng Nghaerdydd. Cafodd aelodau wybod ei fod wedi awgrymu meini prawf i reoli sŵn y tu mewn i'r safle. Roedd y cyfarwyddwyr yn gwybod bod gwaith peirianyddol estynedig yn cael ei argymell. Roedd Mr Trew yn hyderus bod modd i systemau lliniaru a systemau sŵn modern fodloni gofynion swyddogion Rheoli Llygredd.

Gofynnodd Mr Sam Taylor i Aelodau nodi na dderbyniwyd sylwadau gan breswylwyr. Dywedodd Mr Taylor ei fod yn byw ar yr un stryd a'u bar yn Amwythig. Dywedodd ei fod wedi gweithio gyda chymdogion, busnesau eraill ac awdurdodau rheoleiddiol i sicrhau na fyddai unrhyw gwynion am y safle hwnnw.

Dywedodd Sian James nad oedd modd i’r awdurdod Rheoli Llygredd wneud sylw ar y cynllun arfaethedig o waith at ddibenion lleihau effaith unrhyw sŵn o’r safle oherwydd y daeth i lawr ar ôl i’r cais gael ei wneud. Dywedodd Mr Jones y byddai’r busnes yn cynnal ystafell de yn ystod y dydd, gan newid pwyslais gyda’r nos. Câi cerddoriaeth ei chwarae ar lefelau cefndir oherwydd y byddai eu cwsmeriaid yn disgwyl gallu siarad heb weiddi. Yn ogystal â hynny byddai mynedfa ddwbl ym mlaen y safle a byddai system cau awtomataidd yn sicrhau bod y drysau wedi eu cau ar bob adeg.

Crynhoi

Dywedodd Gillian Jones fod yr Awdurdod Rheoli Llygredd yn parhau i wrthwynebu oherwydd bod swyddogion yn pryderu y byddai’r cynlluniau arfaethedig yn peri niwsans i’r cyhoedd. Dywedodd Sian James fod eu pryderon yn gysylltiedig â’r oriau agor estynedig yn bennaf, a’r adloniant a reoleiddir.

Dywedodd Hugh Jones fod cynllun i liniaru unrhyw niwsans cyhoeddus yn cael ei lunio. Ers cael gwybod am bryderon yr Awdurdod Rheoli Llygredd, mae’r ymgeiswyr wedi trafod ag ymgynghorydd acwstig, maent wedi cynnal arolwg llawn, bu ymweliadau â barrau eraill yng ngofal yr ymgeisydd ac roedd cynllun wrthi’n cael ei lunio. Cafodd aelodau wybod y byddai unrhyw offer sain yn addas i’r safle, ac y byddai ‘amgaead acwstig’ o’i amgylch.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi’r Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr Is-bwyllgor y cais, ar yr amodau wedi’u hawgrymu gan Heddlu De Cymru, ac ar amod canlynol a oedd yn briodol yn nhyb yr Is-bwyllgor:

1. Rhaid rhoi cynllun gwaith insiwleiddio sain ar waith ar y safle.
2. Cyn ei roi ar waith, rhaid i Wasanaethau Cymdogaeth y Cyngor benderfynu bod y cynllun yn foddhaol.

9 : CAIS AM DRWYDDED PEIRIANT HAPCHWARAE

PENDERFYNWYD – cymeradwyo’r Drwydded Peiriant Gêm canlynol:

Planet Ice, Caerdydd - 4 Peiriant

10 : COFRESTRU LOTERI CYMDEITHAS FACH

PENDERFYNWYD - Y dylid diddymu'r cofrestriadau Loteri Cymdeithas Fach a ganlyn gan nad oeddynt wedi talu'r ffi flynyddol:

Dolen Cymru Wales Lesotho Link
Danescourt PTA

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am